



POLISI CWYNIION

Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn cefnogi'r pennaeth pan ddywed bod cyfathrebu da, darparu gwybodaeth glir a gweithdrefnau uniongyrchol yn elfennau hanfodol mewn perthynas agored ac eglur rhwng ysgol a'i phartneriaid allweddol.

Bydd y Corff Llywodraethol yn ymdrin o ddifrif â phob mynegiad o bryder neu gwyn, gan ymateb iddynt yn gyflym ac yn effeithiol.

Gyda'r nod hwn mewn golwg, mae'r Corff Llywodraethol wedi cymeradwyo'r dulliau gweithredu canlynol i'w defnyddio wrth ymdrin â mynegiadau o bryder neu gwyn gan rieni, aelodau o'r staff, llywodraethwyr, disgyblion, aelodau o'r gymuned leol ac eraill, er mwyn sicrhau eu bod yn llawn ddeall ym mha fodd y cânt fynegi pryderon a chwynion ffurfiol, ac ym mha fodd yr ymatebir iddynt.

1. Camau ar gyfer Ymwneud â Chwynion oddi wrth Rieni ac eraill

Cam 1

1. Gwneir cwyn ar lafar neu ar ddu a gwyn i'r athro/athrawes ddosbarth neu Bennaeth Blwyddyn ayyb. Rhoddir cyfle i'r achwynydd i gyfarfod â'r aelod staff y codwyd y mater ag ef/hi neu'r Swyddog Cwynion (os oes). Wedi ymchwilio i'r mater, fel arfer rhoddir gwybod am y penderfyniad a wnaed i'r achwynydd o fewn 10 diwrnod ysgol.

(Lle bydd y Pennaeth yn derbyn y gwyn yn y lle cyntaf, penderfynir a ddylid dirprwyo'r gwaith o ystyried y gwyn i aelod arall o'r staff dan gam 1 neu fwrw ymlaen â cham 2.)

2. Os nad oes modd datrys y gwyn wrth fodd yr achwynydd, rhoddir gwybod i'r achwynydd ar ddu a gwyn y cyfeiriwyd y mater i'w hymchwilio at y Pennaeth.

Cam 2

3. Os gwnaed y gwyn ar lafar yn y lle cyntaf, bydd rhaid rhoi'r mater ar ddu a gwyn yn ystod y cam hwn.

4. Bydd y Pennaeth yn cydnabod y gwyn yn ysgrifenedig, yn darparu copi o'r weithdrefn gwyno ac yn rhoi dyddiad targed ar gyfer ymateb.
5. Gwneir trefniadau i'r achwynydd i gyfarfod â'r Pennaeth a bydd hawl ganddo/ganddi i gael cwmni cyfaill neu berthynas a all lefaru ar ei r(h)an. Mae'n bosibl y bydd y Pennaeth hefyd am wahodd rhywun arall i fod yn dyst i'r drafodaeth.
6. Fel arfer bydd y Pennaeth yn cyfleu'r penderfyniad ar ddu a gwyn i'r achwynydd o fewn 10 diwrnod ysgol. Os nad yw'n bosibl i ymdrin â'r mater yn llawn o fewn y cyfnod hwn rhoddir gwybod i'r achwynydd a rhoi'r dyddiad iddo/iddi y disgwylir dod i ben ag ystyried y gwyn.

Cam 3

7. Os nad yw'r achwynydd yn fodlon ar ganlyniad y camau anffurfiol uchod mae hawl ganddo/i i wneud cwyn ffurfiol i Gadeirydd y Corff Llywodraethol.
8. Wedi derbyn y gwyn ysgrifenedig bydd y Cadeirydd yn gwneud trefniadau i glerc y corff llywodraethol i gydnabod derbyn y llythyr, fel arfer o fewn 5 diwrnod ysgol, ac yn gwneud trefniadau i Bwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethol i gyfarfod i glywed y gwyn, fel arfer o fewn 15 diwrnod ysgol o dderbyn y gwyn. Gwahoddir yr achwynydd a'r person/bobl y dygir cwyn yn ei/eu herbyn i ddarparu ymlaen llaw unrhyw ddogfennaeth ysgrifenedig y maent yn awyddus i'r pwyllgor ei hystyried.
9. Diben y gwrandawriad yw galluogi aelodau o'r Pwyllgor i daflu goleuni ar y ffeithiau a phenderfynu a oes sail i gynnal y gwyn. Mae hawl gan bob carfan sy'n gysylltiedig â'r gwyn i gynnig tystiolaeth. **Bwriad y weithdrefn hon yw casglu'r holl wybodaeth berthnasol ac ni ddylai ddatblygu'n broses wrthdrawiadol.**
10. Unwaith i'r holl dystiolaeth gael ei chyflwyno bydd y Pwyllgor yn ystyried ei benderfyniad yn breifat.
11. Fel arfer, anfonir penderfyniad y Pwyllgor at yr achwynydd o fewn 5 diwrnod ysgol i'r gwrandawriad, ynghyd ag eglurhad o'r rhesymau dros y penderfyniad.

Tynnu'r Gwyn yn Ôl

Caiff achwynydd dynnu cwyn yn ôl ar unrhyw adeg trwy roi rhybudd ysgrifenedig am hynny i'r person a fo'n ymdrin â'r gwyn. Cydnebir y llythyr ar ddu a gwyn.

2. Cwyn ynglŷn â'r Pennaeth

1. Os yw'r gwyn yn ymwneud â'r Pennaeth, rhaid ei hanfon ar ddu a gwyn i Gadeirydd y Llywodraethwyr.
2. Gall y Cadeirydd benderfynu ymchwilio i'r gwyn ei hun, neu ddiprwyo'r mater i Lywodraethwr arall neu swyddog arall a enwebir.
3. Bydd y Cadeirydd yn cydnabod y gwyn yn ysgrifenedig ac yn darparu copi o'r weithdrefn gwyno ac yn rhoi dyddiad targed ar gyfer rhoi ymateb.
4. Gwneir trefniadau i'r achwynydd i gyfarfod â'r unigolyn a fydd yn ymchwilio i'r gwyn a bydd hawl ganddo/ganddi, os dymuna hynny, i gael cwmni cyfaill neu berthynas a all lefaru ar ei r(h)an. Mae'n bosib y bydd y sawl sy'n ymchwilio i'r gwyn hefyd am wahodd rhywun arall i fod yn dyst i'r drafodaeth. Efallai y bydd yr unigolyn sy'n ymchwilio i'r gwyn yn dymuno cwrdd ag unigolion eraill y cyfeiriwyd atynt yn y gwyn neu drydydd partion a allai ddarparu gwybodaeth bellach.
5. Fel arfer rhoddir gwybod am y penderfyniad ar ddu a gwyn i'r achwynydd o fewn 10 diwrnod ysgol. Os nad yw'n bosibl i ymdrin â'r mater yn llawn o fewn y cyfnod hwn rhoddir gwybod i'r achwynydd o'r rheswm ac o'r dyddiad pryd y disgwyllir iddo/i ddod i ben ag ystyried y gwyn.
6. Os nad yw'r achwynydd yn fodlon ar ganlyniad y camau anffurfiol uchod mae hawl ganddo/i i wneud cwyn ffurfiol i Gadeirydd y Corff Llywodraethol.
7. Wedi derbyn y gwyn ysgrifenedig bydd y Cadeirydd yn gwneud trefniadau i glerc y corff llywodraethol i gydnabod derbyn y llythyr, fel arfer o fewn 5 diwrnod ysgol, ac yn gwneud trefniadau i Bwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethol i gyfarfod i glywed y gwyn, fel arfer o fewn 15 diwrnod ysgol o dderbyn y gwyn. Gwahoddir yr achwynydd a'r person/bobl y dygir cwyn yn ei/eu (h)erbyn i ddarparu unrhyw ddogfennaeth ysgrifenedig y maent yn awyddus i'r pwyllgor ei hystyried.
8. Diben y gwrandawriad yw galluogi aelodau o'r Pwyllgor i daflu goleuni ar y ffeithiau a phenderfynu a oes sail i gynnal y gwyn. Mae hawl gan bob carfan sy'n ymwneud â'r gwyn i gynnig tystiolaeth. **Bwriad y weithdrefn hon yw casglu'r holl wybodaeth berthnasol ac ni ddylai ddatblygu'n broses wrthdrawiadol.**
9. Unwaith i'r holl dystiolaeth gael ei chyflwyno bydd y Pwyllgor yn ystyried ei benderfyniad yn breifat.

10. Anfonir penderfyniad y Pwyllgor at yr achwynydd o fewn 5 diwrnod ysgol i'r gwrandawriad, gydag eglurhad o'r rhesymau dros y penderfyniad.

Tynnu'r Gwyn yn Ôl

Caiff achwynydd dynnu cwyn yn ôl ar unrhyw adeg trwy roi rhybudd ysgrifenedig am hynny i'r person a fo'n ymdrin â'r gwyn. Cydnebir y llythyr ar ddu a gwyn.

3. Cwyn yn erbyn y Swyddog Cwynion (os oes)

1. Dylid gwneud y gwyn ar ddu a gwyn i'r Pennaeth.
2. Bydd y Pennaeth yn penderfynu a yw ef/hi ei hun am ymchwilio i'r mater, neu a yw am gyfeirio'r mater at aelod o'r staff uwch i'w hymchwilio.
3. Bydd y Cadeirydd yn cydnabod y gwyn yn ysgrifenedig, yn darparu copi o'r weithdrefn gwyno ac yn rhoi dyddiad targed ar gyfer rhoi ymateb.
4. Gwneir trefniadau i'r achwynydd i gyfarfod â'r unigolyn a fydd yn ymchwilio i'r gwyn a bydd hawl ganddo/ganddi, os dymuna hynny, i gael cwmni cyfaill neu berthynas a all lefaru ar ei r(h)an. Mae'n bosibl y bydd y sawl sy'n ymchwilio i'r gwyn hefyd yn awyddus i gael rhywun arall yno i fod yn dyst i'r drafodaeth. Efallai y bydd yr unigolyn sy'n ymchwilio i'r gwyn yn dymuno cwrdd ag unigolion eraill y cyfeiriwyd atynt yn y gwyn neu drydydd partïon a allai ddarparu gwybodaeth bellach.
5. Fel arfer rhoddir gwybod am y penderfyniad i'r achwynydd ar ddu a gwyn o fewn 10 diwrnod ysgol. Os nad yw'n bosibl i ymdrin â'r mater yn llawn o fewn y cyfnod hwn rhoddir gwybod i'r achwynydd a rhoi dyddiad iddo/i pryd y disgwylir dod i ben ag ystyried y gwyn.
6. Os nad yw'r achwynydd yn fodlon ar ganlyniad y camau anffurfiol uchod mae hawl ganddo/i i wneud cwyn ffurfiol i Gadeirydd y Corff Llywodraethol.
7. Wedi derbyn y gwyn ysgrifenedig bydd y Cadeirydd yn gwneud trefniadau i glerc y corff llywodraethol i gydnabod derbyn y llythyr, fel arfer o fewn 5 diwrnod ysgol o'i dderbyn, ac yn gwneud trefniadau i Bwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethol i gyfarfod i glywed y gwyn, fel arfer o fewn 15 diwrnod ysgol o dderbyn y gwyn. Gwahoddir yr achwynydd a'r person/bobl y dygir cwyn yn ei/eu (h)erbyn i ddarparu unrhyw ddogfennaeth ysgrifenedig y maent yn awyddus i'r pwyllgor ei hystyried.

8. Diben y gwrandawriad yw galluogi aelodau o'r Pwyllgor i daflu goleuni ar y ffeithiau a phenderfynu a oes sail i gynnal y gwyn. Mae hawl gan bob carfan sy'n ymwneud â'r gwyn i gynnig tystiolaeth. **Bwriad y weithdrefn hon yw casglu'r holl wybodaeth berthnasol ac ni ddylai ddatblygu'n broses wrthdrawiadol.**
9. Unwaith i'r holl dystiolaeth gael ei chyflwyno bydd y Pwyllgor yn ystyried ei benderfyniad yn breifat.
10. Anfonir penderfyniad y Pwyllgor at yr achwynydd o fewn 5 diwrnod ysgol i'r gwrandawriad, gydag eglurhad o'r rhesymau dros y penderfyniad.

Tynnu'r Gwyn yn Ôl

Caiff achwynydd dynnu cwyn yn ôl ar unrhyw adeg trwy roi rhybudd ysgrifenedig am hynny i'r person a fo'n ymdrin â'r gwyn. Cydnebir y llythyr ar ddu a gwyn.

4. Cwyn ynglŷn â Chadeirydd y Corff Llywodraethol a/neu Gadeirydd y Corff Llywodraethol ynghyd â'r Pennaeth

1. Dylid anfon unrhyw gwyn am Gadeirydd y Corff Llywodraethol neu am y Cadeirydd ynghyd â'r Pennaeth at yr Is-Gadeirydd.
2. Mae'n bosibl y bydd yr Is-Gadeirydd am ymchwilio i'r gwyn ei hun, neu fel arall ddirprwyo'r dasg i lywodraethwr arall a enwebir.
3. Bydd yr Is-Gadeirydd yn cydnabod y gwyn yn ysgrifenedig ac yn darparu copi o'r weithdrefn gwyno ac yn rhoi dyddiad targed ar gyfer ymateb.
4. Gwneir trefniadau i'r achwynydd i gyfarfod â'r unigolyn a fydd yn ymchwilio i'r gwyn a bydd hawl ganddo/ganddi, os dymuna hynny, i gael cwmni cyfaill neu berthynas a all lefaru ar ei r(h)an. Mae'n bosibl y bydd y sawl sy'n ymchwilio i'r gwyn hefyd yn awyddus i gael rhywun arall yno i fod yn dyst i'r drafodaeth. Efallai y bydd yr unigolyn sy'n ymchwilio i'r gwyn yn dymuno cwrdd ag unigolion eraill y cyfeiriwyd atynt yn y gwyn neu drydydd partïon a allai ddarparu gwybodaeth bellach.
5. Fel arfer rhoddir gwybod am y penderfyniad i'r achwynydd ar ddu a gwyn o fewn 10 diwrnod ysgol. Os nad yw'n bosibl i ymdrin â'r mater yn llawn o fewn y cyfnod hwn rhoddir gwybod i'r achwynydd o'r rheswm ac o'r dyddiad pryd y disgwyllir iddo/i ddod i ben ag ystyried y gwyn.
6. Os nad yw'r achwynydd yn fodlon ar ganlyniad y camau anffurfiol uchod mae hawl ganddo/i i wneud cwyn ffurfiol i Is-Gadeirydd y Corff Llywodraethol.

7. Wedi derbyn y gwyn ysgrifenedig bydd yr Is-Gadeirydd yn gwneud trefniadau i glerc y corff llywodraethol i gydnabod derbyn y llythyr, fel arfer o fewn 5 diwrnod ysgol o'i dderbyn, ac yn gwneud trefniadau i Bwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethol i gyfarfod i glywed y gwyn, fel arfer o fewn 15 diwrnod ysgol o dderbyn y gwyn. Gwahoddir yr achwynydd a'r person/bobl y dygir cwyn yn ei/eu (h)erbyn i ddarparu unrhyw ddogfennaeth ysgrifenedig y maent yn awyddus i'r pwyllgor ei hystyried.
8. Diben y gwrandawriad yw galluogi aelodau o'r Pwyllgor i daflu goleuni ar y ffeithiau a phenderfynu a oes sail i gynnal y gwyn. Mae hawl gan bob carfan sy'n ymwneud â'r gwyn i gynnig tystiolaeth. **Bwriad y weithdrefn hon yw casglu'r holl wybodaeth berthnasol ac ni ddylai ddatblygu'n broses wrthdrawiadol.**
9. Unwaith i'r holl dystiolaeth gael ei chyflwyno bydd y Pwyllgor yn ystyried ei benderfyniad yn breifat.
10. Anfonir penderfyniad y Pwyllgor at yr achwynydd o fewn 5 diwrnod ysgol i'r gwrandawriad, gydag eglurhad o'r rhesymau dros y penderfyniad.

Tynnu'r Gwyn yn Ôl

Caiff achwynydd dynnu cwyn yn ôl ar unrhyw adeg trwy roi rhybudd ysgrifenedig o hynny i'r person fo'n ymdrin â'r gwyn. Cydnebir y llythyr ar ddu a gwyn.

5. Cwyn ynglŷn â Chadeirydd y Llywodraethwyr ynghyd â'r Is-gadeirydd

1. Os cyfyd cwyn ynglŷn â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Corff Llywodraethol, rhaid cyflwyno'r gwyn ar ddu a gwyn i Glerc y Corff Llywodraethol, a fydd yn cyfeirio'r mater at Gadeirydd y Pwyllgor Cwynion.
(Os yw Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Corff Llywodraethol hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Cwynion yna gwneir trefniadau i aelodau eraill o'r Corff Llywodraethol gymryd eu lle.)
2. Wedi derbyn y gwyn ysgrifenedig bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cwynion yn gwneud trefniadau i Glerc y Corff Llywodraethol i gydnabod derbyn y llythyr, fel arfer o fewn 5 diwrnod ysgol o'i dderbyn, ac yn gwneud trefniadau i Bwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethol i gyfarfod i glywed y gwyn, fel arfer o fewn 15 diwrnod ysgol o dderbyn y gwyn. Gwahoddir yr achwynydd a'r person/bobl y dygir cwyn yn ei/eu (h)erbyn i

ddarparu unrhyw ddogfennaeth ysgrifenedig y maent yn awyddus i'r pwyllgor ei hystyried.

3. Diben y gwrandawriad yw galluogi aelodau o'r Pwyllgor i daflu goleuni ar y ffeithiau a phenderfynu a oes sail i gynnal y gwyn. Mae hawl gan bob carfan sy'n ymwneud â'r gwyn i gynnig tystiolaeth. **Bwriad y weithdrefn hon yw casglu'r holl wybodaeth berthnasol ac ni ddylai ddatblygu'n broses wrthdrawiadol.**
4. Unwaith i'r holl dystiolaeth gael ei chyflwyno bydd y Pwyllgor yn ystyried ei benderfyniad yn breifat.
5. Anfonir penderfyniad y Pwyllgor at yr achwynydd o fewn 5 diwrnod ysgol i'r gwrandawriad, gydag eglurhad o'r rhesymau dros y penderfyniad.

Tynnu'r Gwyn yn Ôl

Caiff achwynydd dynnu cwyn yn ôl ar unrhyw adeg trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r sawl sy'n ymdrin â'r gwyn. Cydnebir y llythyr ar ddu a gwyn.

6. Cwyn ynglŷn â Llywodraethwr (gan gynnwys yr Is-gadeirydd) neu garfan o Lywodraethwyr

1. Os cyfyd cwyn yn erbyn gweithrediadau Llywodraethwr neu garfan o Lywodraethwyr rhaid cyflwyno'r gwyn ar ddu a gwyn a'i hanfon at Gadeirydd y Corff Llywodraethol. *(Os yw Cadeirydd y Corff Llywodraethol yn un o'r garfan o lywodraethwyr y cwynir amdanynt yna dylid cyflwyno'r gwyn i'r Is-Gadeirydd, a fydd yn ymdrin â'r gwyn. Fodd bynnag, os yw'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn rhan o'r garfan o lywodraethwyr y cwynir amdanynt, yna dylid cyflwyno'r gwyn i Glerc y Corff Llywodraethol a bydd yntau'n cyfeirio'r mater at Gadeirydd y Pwyllgor Cwynion.)*
2. Gall y Cadeirydd benderfynu i ymchwilio i'r gwyn ei hun, neu i ddirprwyo'r mater i Lywodraethwr arall neu swyddog aralla enwebir.
3. Bydd y Cadeirydd yn cydnabod y gwyn ar ddu a gwyn, yn darparu copi o'r drefn gwynion ac yn rhoi dyddiad targed ar gyfer ymateb.
4. Gwneir trefniadau i'r achwynydd i gyfarfod â'r unigolyn a fydd yn ymchwilio i'r gwyn a bydd hawl ganddo/ganddi, os dymuna hynny, i gael cwmni cyfaill neu

berthynas a all lefaru ar ei r(h)an. Mae'n bosib y bydd y sawl sy'n ymchwilio i'r gwyn hefyd yn awyddus i gael rhywun arall yno i fod yn dyst i'r drafodaeth. Efallai y bydd yr unigolyn sy'n ymchwilio i'r gwyn yn dymuno cwrdd ag unigolion eraill y cyfeiriwyd atynt yn y gwyn neu drydydd partïon a allai ddarparu gwybodaeth bellach.

5. Fel arfer rhoddir gwybod am y penderfyniad i'r achwynydd ar ddu a gwyn o fewn 10 diwrnod ysgol. Os nad yw'n bosibl i ymdrin â'r mater yn llawn o fewn y cyfnod hwn rhoddir gwybod i'r achwynydd o'r rheswm ac o'r dyddiad pryd y disgwylir iddo/i ddod i ben ag ystyried y gwyn.
6. Os nad yw'r achwynydd yn fodlon ar ganlyniad y camau anffurfiol uchod mae hawl ganddo/i i wneud cwyn ffurfiol i Gadeirydd y Corff Llywodraethol.
7. Wedi derbyn y gwyn ysgrifenedig bydd y Cadeirydd yn gwneud trefniadau i glerc y corff llywodraethol i gydnabod derbyn y llythyr, fel arfer o fewn 5 diwrnod ysgol o'i dderbyn, ac yn gwneud trefniadau i Bwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethol i gyfarfod i glywed y gwyn, fel arfer o fewn 15 diwrnod ysgol o dderbyn y gwyn. Gwahoddir yr achwynydd a'r person/bobl y dygir cwyn yn ei/eu (h)erbyn i ddarparu unrhyw ddogfennaeth ysgrifenedig y maent yn awyddus i'r pwyllgor ei hystyried.
8. Diben y gwrandawriad yw galluogi aelodau o'r Pwyllgor i daflu goleuni ar y ffeithiau a phenderfynu a oes sail i gynnal y gwyn. Mae hawl gan bob carfan sy'n ymwneud â'r gwyn i gynnig tystiolaeth. **Bwriad y weithdrefn hon yw casglu'r holl wybodaeth berthnasol ac ni ddylai ddatblygu'n broses wrthdrawiadol.**
9. Unwaith i'r holl dystiolaeth gael ei chyflwyno bydd y Pwyllgor yn ystyried ei benderfyniad yn breifat.
10. Anfonir penderfyniad y Pwyllgor at yr achwynydd o fewn 5 diwrnod ysgol i'r gwrandawriad, gydag eglurhad o'r rhesymau dros y penderfyniad.

Tynnu'r Gwyn yn Ôl

Caiff achwynydd dynnu cwyn yn ôl ar unrhyw adeg trwy roi rhybudd ysgrifenedig o hynny i'r person a fo'n ymdrin â'r gwyn. Cydnebir y llythyr ar ddu a gwyn.

7. Cwyn ynglŷn â'r Corff Llywodraethol Cyfan

Dylid anfon unrhyw gwyn am weithrediadau'r Corff Llywodraethol cyfan at Glerc y Corff Llywodraethol a fydd yn hysbysu'r Pennaeth, Cadeirydd y Corff Llywodraethol a'r AALL ac, fel y bo'n briodol, yr awdurdod esgobaethol.

Yna bydd yr AALL yn cynghori'r achwynydd o'r camau i'w cymryd i ddelio â'r gwyn.

Atodiad 1

Canllawiau Cyffredinol ar wneud Cwyn

Os oes gennyf gwyn am ysgol yng Ngheredigion pa drefn ddylwn i ei dilyn?

Mae gan y rhan fwyaf o rieni berthynas gadarnhaol gyda'r ysgolion ond o bryd i'w gilydd bydd rhywbeth yn mynd o'i le. Dylid cymryd pob cwyn o ddifrif a bydd gan ysgolion weithdrefn benodol ar gyfer ymdrin â chwynion. Mae modd i chi ofyn i'r ysgol am gopi o'i gweithdrefn yng nghyswllt ymdrin â chwynion er mwyn i chi wybod sut yn union y bydd yn mynd i'r afael â'r mater. Mae gan lywodraethwyr ysgolion gyfrifoldeb o dan Adran 29 Deddf Addysg 2002 i ymdrin â phob cwyn ynglŷn â'r ysgol. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch i ddeall y daflen hon, cysylltwch ag ysgol eich plentyn neu'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol. (Mae rhagor o fanylion ar ddiwedd y daflen hon.)

Sut mae cychwyn?

Ni waeth a ydych yn rhiant neu'n aelod o'r cyhoedd, y man cychwyn cyntaf yw'r ysgol. Byddai'n well o lawer pe bai modd ymdrin â'r mater yn yr ysgol ei hun. Fel arfer mae mwy nag un ochr i unrhyw anghydfod neu gamddealltwriaeth ac mae'n bwysig bod unrhyw gamddealltwriaethau yn cael eu datrys a bod yr holl ffeithiau'n wybyddus fel bod modd dod o hyd i'r ateb gorau. Felly, yn y lle cyntaf, cysylltwch â'r ysgol, os gwelwch yn dda. Mewn ysgol gynradd mae'n debyg mai'r person cyswllt priodol fydd athrawes/athro dosbarth eich plentyn neu'r pennaeth. Mewn ysgol uwchradd fe'ch cynghorir i gysylltu â'r tiwtor dosbarth, y pennaeth blwyddyn neu efallai y swyddog cwynion.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Meddylwch am y math o gwyn sydd gennych. Os yw rhywbeth penodol wedi digwydd, casglwch y ffeithiau ynghyd a cheisiwch wahaniaethu rhwng yr hyn a allai fod wedi digwydd a'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd. Efallai y byddwch am roi'r manylion ar bapur. Byddwch yn arbennig o glir am:

- yr hyn rydych yn cwyno yn ei gylch;
- ym mhle ac ar ba adeg y digwyddodd;

- y person/bobl eraill oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad;
- a welodd unrhyw un yr hyn ddigwyddodd;
- gyda phwy y buoch yn trafod eisoes; ac
- yr hyn rydych am ei weld yn digwydd yn ganlyniad i'ch cwyn.

Neu, o bosib, byddwch am godi pryderon mwy cyffredinol.

Bydd yr ysgol yn ymholi i'r pryderon a godwyd gennych ac yn ymateb unwaith iddi sicrhau'r hyn a ddigwyddodd.

Mae'n bwysig eich bod yn codi eich pryderon mor fuan ag y medrwch. Trwy gymryd camau cadarnhaol yn gynnar, bydd yr ysgol yn fwy tebygol o fedru datrys eich cwyn.

Beth os ydw i am gwyno ynglŷn â'r pennaeth?

Os ydych am gwyno ynglŷn â'r pennaeth dylech gysylltu â chadeirydd bwrdd llywodraethwyr yr ysgol.

Cewch enw cadeirydd bwrdd y llywodraethwyr a manylion am sut i gysylltu ag ef neu hi gan yr ysgol neu'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol. Bydd y cadeirydd, neu rywun a enwebir i wneud, yn ymchwilio i'ch pryderon ac yn ymateb yn uniongyrchol i chi.

Beth os wyf am gwyno am y corff llywodraethol neu lywodraethwr unigol?

Os oes gennych gwyn am lywodraethwr, cysylltwch â Chadeirydd y Corff Llywodraethol yn gyntaf. Yna, bydd y Cadeirydd yn trefnu ymchwiliad i'ch pryderon.

Os oes gennych gwyn am Gadeirydd y Corff Llywodraethol, dylid cysylltu â'r Is-Gadeirydd, a fydd yn trefnu ymchwiliad i'ch pryderon.

Cewch enw cadeirydd neu is-gadeirydd bwrdd y llywodraethwyr, a manylion am sut i gysylltu â hwy, gan yr ysgol neu'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol.

Os oes gennych gwyn am y corff llywodraethol cyfan, cysylltwch â'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, os gwelwch yn dda.

Beth allaf i ei ddisgwyl?

Byddir yn ystyried eich cwyn yn llawn. Mae gofyn ymchwilio i gwynion a bydd angen amser ar y pennaeth neu gadeirydd y llywodraethwyr i wneud hynny. Mae 20 diwrnod ysgol yn gyfnod rhesymol o amser i'w neilltuo ar gyfer ymchwilio i'r rhan fwyaf o gwynion. Dylech gael gwybod a fydd yn cymryd yn hirach na hyn.

Os yw'r ysgol yn cytuno bod sail i'ch cwyn, dylai roi gwybod i chi pa gamau a gymerir. Mewn ambell i achos, efallai y cymerir camau disgyblaethol yn erbyn aelod o'r staff. Penderfyniad

i'r corff llywodraethol yw hwn, nid yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI). Mae yna drefn neilltuol i ysgolion ei dilyn wrth ymdrin â materion disgyblu staff.

Os nad yw'r ysgol yn ategu eich cwyn, dylai roi gwybod i chi am y rhesymau dros y penderfyniad hwn, a gallwch ofyn am gael y rhain ar ddu a gwyn.

Beth os nad wyf yn fodlon gyda'r ffordd y mae'r ysgol wedi ymdrin â'm cwyn?

Os yw'r pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr neu'r un sy'n ymchwilio i'r mater wedi methu â datrys eich cwyn mewn modd sydd wrth eich bodd, gallwch ofyn i'ch cwyn gael ei hystyried gan Bwyllgor Cwynion Bwrdd y Llywodraethwyr. Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, gallwch gysylltu â'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol neu Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Beth os wyf am gwyno ynghylch ysgol gymorthedig?

Mewn ysgolion cymorthedig, cyfarwyddir yr addysg grefyddol gan lywodraethwyr yr ysgol yn unol â gweithred ymddiriedolaeth ac offeryn llywodraethol yr ysgol unigol. Mae'r ysgolion hyn yn gysylltiedig ag eglwys arbennig, er enghraifft Eglwys Loegr neu'r Eglwys Gatholig.

Yn gyffredinol, ymdrinnir â'ch cwyn yn yr un ffordd â'r uchod. Fodd bynnag, os yw'r corff llywodraethol yn methu â datrys eich cwyn mewn modd a fydd wrth eich bodd, bydd yn ei chyfeirio at fwrdd addysg esgobaethol (eglwysig). Cewch gyfeiriad y bwrdd addysg esgobaethol gan yr ysgol. Os nad ydych yn fodlon gyda'r ffordd y bydd y bwrdd addysg esgobaethol yn ymdrin â'ch cwyn, dylech wedyn gysylltu â'r AALI.

Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd?

Dylid ymdrin â chwynion yn gyflym a dylai'r rhan fwyaf o faterion gael eu datrys ymhen ychydig ddyddiau. Dylai'r ysgol orffen ymchwilio i'r rhan fwyaf o faterion o fewn 20 diwrnod ysgol ond os bydd cwyn yn symud trwy'r holl gamau uchod, gall gymryd sawl mis i'w datrys.